

Cyngor Cymuned Llanfrothen  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
6 Tachwedd 2017 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

**1. YMDDIHEURIADAU**

Llio Griffiths, Nia Povey

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Dim

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 4 Medi 2017, gydag un newid, sef fod y balans yn y banc yn £19,243.28

**PRESENNOL :**

Cynghorwyr: Dafydd Watts, Rhydwen Roberts, Nyfain Wynn  
Cadeirio: Glyn Griffiths  
Clerc: Huw Llwyd Rowlands

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**4.1 Torri coed B45110 a Brondanw i Croesor**

Mae'r Clerc yn parhau i ddisgwyl adporth pellach gan Gyngor Gwynedd, er gwaethaf gohebu niferus. Gofynnwyd i'r Clerc atgoffa Cyngor Gwynedd o'u cyfrifoldeb o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

**4.2 Cyfarfod Ymddiriedoleth Clough Williams Ellis**

Mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn gobeithio cael cyfarfod efo'r Ymddiriedolwyr yn fuan er mwyn trafod amrywiol faterion gan gynnwys newid hen Dy Parc yn 2 dy, a'r cynllun Hydro.

**4.3 Cwyn yn erbyn swyddfa Archwilio Cymru – Comisiynydd y Gymraeg**

Mae'r Comisiynydd wedi derbyn nifer o gwynion am yr archwilydd allanol/BDO ac fellywedi cychwyn ymchwiliad statudol. Rhaid dilyn proses benodol all gymryd hyd at 5 mis cyn cael dyfarniad terfynol.

#### **4.4 Arosfan Fysiau**

Mae gosod arosfan fws gyda'r cynllun symlaf yn debygol o gostio yn agos at £5,000. Gweddol gyfyngedig yw'r ffynonellau ariannol am grant i gynorthwyo'r pryniant, ond mae'n bosibl y gallesid cael grant o £500 gan Grwp Cynefin.

Cytunwyd fod angen ystyried y gost a heyfd y budd tebygol. Cytunodd y Cynghorydd Dafydd Watts i holi barn y trigolion lleol ar y denfydd posibl o arsofan newydd, gan adrodd yn ôl yng nghyfarfod Ionawr.

Trafodwyd hefyd diogelwch ffordd ger y groesfan yn Llanfrothen. Teimlwyd y byddai'n fuddiol ystyried gostwng y cyfngiad cyflymder i 20mya wrth y gofgolofn yn Llanfrothen, ac ar y ffyrdd eraill sy'n arwain i ganol y pentref.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i weld a fyddai'n bosibl cael ymweliad gan swyddog diogelwch ffordd er mwyn trafod y mater ymhellach.

#### **4.4 Treth Fusnes Y Ganolfan Gymdeithasol**

Mae'r Swyddfa Brisio wedi cytuno i ostwng y dreth o £2,100 i £1,520.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu eto â'r Swyddfa Brisio yng Nghaerdydd a gofyn am ostyngiad pellach, o gofio'r defnydd cymharol fychan a wneir o'r Ganolfan a'i chyflwr.

Os na fydd y Swyddfa Brisio yng Nghaerdydd yn fodlon cynnig gostyngiad pellach, yna gellir ystyried gwneud apêl i'r Tribiwnlys Prisio.

#### **4.5 Meddygfa Penrhyndeudraeth**

Ysgrifennwyd at Dafydd Elis-Thomas a Simon Thomas parthed pryder am doriadau yn y gwasanaeth ym meddygfa Bron Meirion, Penrhyndeudraeth.

Cafwyd ateb gan Dafydd Elis-Thomas A.S. a bydd yn codi'r pryderon gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Cafwyd ateb hefyd gan Simon Thomas A.S. oedd yn dweud fod Plaid Cymru wedi pwyso'n gyson i gael Ysgol Feddygol yng Ngogledd Cymru, fyddai'n debygol o gynyddu'r nifer o feddygon teulu fyddai am weithio yng Ngogledd Cymru.

### **5. Gohebiaeth**

- Un Llais Cymru – bwriad Llywodraeth Cymru i ddileu taliadau claddedigaeth i blant, fel na fydd yn rhaid i rieni dalu am gladdedigaethau yn y dyfodol.
- Hunaniaith – gwsanaeth am ddim gan Gyngor Gwynedd I hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

## **6. Biliau i'w talu**

- Treth Fusnes £105 y mis – talu Gorffennaf, Awst, Medi a Hydref 2017
- Dwr Cymru £54.93
- Argraffydd i'r Clerc £182.40
- Microsoft Office £79.99
- Cyngor Gwynedd, costau etholiadol £131.00

Derbyniwyd £30 am logi'r Ganolfan Gymdeithasol

Derbyniwyd £1,300 am gladdedigaeth

Derbyniwyd ail daliad Praesept 2017-18 £2,900 30/08/17

Balans yn y Banc 4 Tachwedd 2017 £19,243.28

## **7. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Dim

## **8. Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol**

Dychwelwyd y Ffurflen Flynyddol gan BDO, yr Archwilwyr Allanol. Cafwyd rhai sylwadau y dylid eu hystyried ar gyfer archwiliad 2017/2018

## **9. MATERION ERAILL**

### **9.1 Newid y cyflenwr trydan o Scottish Power i M and S Energy**

Mae'r Clerc yn y broses o newid darparwr cyflenwad y Ganolfan Gymdeithasol o Scottish Power i M and S energy, gan fod eu prisiau'n rhatach.

### **9.2 Amserlen bysiau lleol - trafodaeth gyda chynghorau cymuned eraill**

Cytunwyd y byddai'r Is-gadeirydd Dafydd Watts yn mynychu cyfarfod efo Cyngor Tref Penrhyndeudraeth er mwyn trafod.

**10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:** Ionawr 8 2018, am 7:30 yh.